Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 21 Mehefin 2017

10.00 - 12.00

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd) William Callaway, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Fflur Elin, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (o 11.30)
Sylwedydd:	Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Catherine Rees, Ysgrifennydd Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Nia Brown, Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth
Ymddiheuriadau:	Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. 2.2 Datganodd Gwilym Dyfri Jones ddiddordeb yn Eitem 7 – Adroddiad y Prif Weithredwr am ei fod yn gyflogedig gan sefydliad sy'n cyflwyno cais i weithredu fel canolfan hyfforddi athrawon.		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 22 Mawrth 2017	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2017.		
4. Materion yn codi	4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.		
5. Materion y Cadeirydd	5.1 Rhoddodd y Cadeirydd, yn ei gyfarfod cyntaf o'r Bwrdd, adroddiad ar ei waith ers dechrau yn y rôl ar 1 Ebrill 2017. Diolchodd i Andrew Green am ei waith a'i arweiniad a diolchodd i swyddogion y Coleg am eu cymorth yn ystod ei gyfnod anwytho. Nododd ei fod wedi mynychu Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraeth Cymru, Bwrdd Academaidd y Coleg a'i fod wedi		

	cadeirio Pwyllgor Archwilio a Risg y Coleg. Nododd ei fwriad i gysylltu'n uniongyrchol gyda phob cyfarwyddwr ac edrychai ymlaen at gyd-weithio â nhw.	Cadeirydd i gysylltu â'r Cyfarwyddwyr	Haf 2017
6. Materion Llywodraethiant	**Ail-benodi Cyfarwyddwr sector addysg uwch** 6.1 Cymeradwywyd ail-benodi'r Athro Hywel Thomas fel cyfarwyddwr sector addysg uwch am dymor pellach o 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2021. **Diweddariad ar benodi Cyfarwyddwr annibynnol** 6.2 Nodwyd a chymeradwywyd yr argymhelliad i ohirio penodi Cyfarwyddwr Annibynnol tan fis Medi. Cytunwyd y byddai aelodau'r Bwrdd yn derbyn argymhellion ynghylch penodiad trwy ohebiaeth electronig. **Aelodaeth y Pwyllgor Penodiadau** 6.3 Cymeradwyd penodi Denise Williams, (cyn Dirprwy Gofrestrydd Academaidd, Prifysgol De Cymru) fel aelod o'r Pwyllgor Penodiadau, am dair blynedd o 1 Awst 2017 tan 31 Gorffennaf 2020. **Gweithgor y Cyfansoddiad** 6.4 Nodwyd yr adroddiad ynghylch Llywodraethiant y Coleg (Atodiad 6a), er gwybodaeth. Diolchwyd i'r Athro Iwan Davies am ei arweiniad yn y materion hynny. 6.5 Crybwyllodd y Deon y dylid ystyried newid geiriad yn y cyfansoddiad ynghylch statws y cyfarwyddwr sy'n cynrychioli staff academaidd y Coleg i gyfarwyddwr	Ymgynghori ar benodi Cyfarwyddwr Annibynnol trwy ohebiaeth	Erbyn 22 Tachwedd 2017

	sy'n cynrychioli staff academaidd sy'n aelodau o'r Coleg. 6.6 Awdurdodwyd y Cadeirydd i wahodd aelodau newydd i ymuno â Gweithgor y Cyfansoddiad. **Fframwaith Ansawdd ar gyfer y Bwrdd** 6.7 Adroddodd y Cadeirydd ar y bwriad i ddatblygu fframwaith ansawdd i'r Bwrdd mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwyr. Trafodwyd pwysigrwydd penodi aelodau cymwys â phrofiad o lywodraethiant. **Adolygu Côd Ymarfer** 6.8 Nodwyd y bwriad i adolygu'r Côd Ymarfer a'i gylchredeg i'r Cyfarwyddwyr cyn ei gyflwyno'n derfynol i'r Bwrdd ar 22 Tachwedd 2017.	Cadeirydd i wahodd aelodau newydd Cyd-lynu holiadur a chyflwyno cyfundrefn Adolygu'r Côd Ymarfer a'i gylchredeg	Gorffennaf-Medi 2017 Erbyn 22 Tachwedd 2017 Cyn 22 Tachwedd 2017
7. Adroddiad y Prif Weithredwr	7.1 Derbyniwyd crynodeb llafar gan y Prif Weithredwr o'r adroddiad ysgrifenedig oedd wedi ei gylchredeg o flaen llaw. **Cynllunio a Strategaeth** 7.2 Nodwyd bod y trefniadau cyllido newydd, sef bod y Coleg yn derbyn grant yn uniongyrchol gan Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, mewn lle ers 1 Ebrill 2017. **Grŵp Tasg a Gorffen** 7.3 Adroddwyd bod y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd wedi cyfarfod eto gydag aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen, sy'n adolygu elfennau o		

	weithgareddau'r Coleg. Disgwylir cyhoeddi'r adroddiad ym mis Gorffennaf 2017. 7.4 Cafwyd trafodaeth ar gyhoeddiad diweddar *Public Good and a Prosperous Wales* a'r cynigion ar gyfer sefydlu corff newydd, TERCW, yn sgil adroddiad Hazelkorn. **Cynllunio Academaidd** 7.5 Yn sgil mabwysiadu'r Cynllun Academaidd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ar adolygu'r cynlluniau pynciol ac ystyried modelau cyllido drwy'r drefn Grantiau Pynciol ar gyfer y blynyddoedd nesaf. 7.6 Adroddodd y Deon ar yr angen i sefydliadau ddarparu gwybodaeth llawn i academyddion yn sgil diwedd cyfnodau cyllido pum mlynedd swyddi'r cynllun staffio. Nodwyd nad yw penderfyniadau'r Coleg bob amser yn cael eu rhaeadru a bod risg colli aelodau staff yn ddiangen. **Cynllun Gweithredu 2017/18** 7.7 Nodwyd y cynnydd yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2017/18 a fydd yn sail i'r broses monitro o ran y Llywodraeth. **Y Gofrestr Risg** 7.8 Nodwyd y bydd y Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu'n llwyr erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg, yn dilyn cyngor yr Athro Iwan Davies y dylid crynhoi'r risgiau strategol.	Adolygu'r Gofrestr Risg	Haf 2017

	Diweddariadau cyffredinol ar waith y Coleg 7.9 Derbyniwyd adroddiadau ysgrifenedig Marchnata a Chyfathrebu; Gwasanaethau Gwybodaeth; Hyfforddiant Academaidd a Datblygu Staff; a Gwerddon a phrosiectau cyhoeddi eraill, er gwybodaeth.		
8. Materion Staffio	8.1 Adroddwyd bod Morfudd Matthews wedi ei phenodi yn Swyddog Datblygu Marchnata a Chyfathrebu am weddill cyfnod mamolaeth Manon Llwyd-Bowen, yn sgil penodi Adam Jones i olynu Lisa Haf fel Swyddog Datblygu Cyflogwyr a Myfyrwyr. 8.2 Adroddwyd bod Dr Lowri Morgans wedi ei phenodi'n Rheolwr Prosiectau Cynllunio Academaidd ac yn gweithio un diwrnod yr wythnos tan fis Awst cyn cychwyn llawn-amser fis Medi 2017. 8.3 Adroddwyd bod aelodau staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddi rheolaeth uwch, cyfrifo, iechyd a diogelwch ac adnoddau dynol.		
9. Materion Cyllid	**Cyllideb y Coleg 2017/18** 9.1 Nodwyd cyllideb y Coleg 2017/18 (Atodiad 9a) fel y cadarnhawyd yng nghyfarfod y Bwrdd ar 22 Mawrth 2017. **Polisi Buddsoddiadau** 9.2 Cafwyd trafodaeth gychwynnol yn y Pwyllgor Archwilio a Risg, ar 16 Mai 2017, ynghylch datblygu Polisi Buddsoddiadau ar gyfer y Coleg. Yn dilyn trafodaeth awdurdodwyd y Prif Weithredwr, mewn	Paratoi polisi buddsoddiadau	Erbyn 7 Tachwedd 2017

	ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Athro Iwan Davies a William Callaway, i baratoi Polisi Buddsoddiadau drafft i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn y lle cyntaf, gyda'r bwriad o'i gyflwyno i Gyfarfod y Bwrdd ar 22 Tachwedd 2017.	drafft i'r Pwyllgor Archwilio a Risg	
10. Materion Archwilio a Risg	**Pwyllgor Archwilio a Risg** 10.1 Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 16 Mai 2017. **Penodi banc Barclays** 10.2 Cymeradwywyd yr argymhelliad i benodi banc Barclays, ar yr amod bod cynnydd addas o ran darparu gwasanaeth Cymraeg ymhen blwyddyn. **Gohebiaeth mewn perthynas â'r trefniadau trosglwyddo cyllido o CCAUC i Lywodraeth Cymru** 10.3 Derbyniwyd gohebiaeth yr archwilwyr mewnol ar y trefniadau trosglwyddo cyllido gan y Cyngor Cyllido i Lywodraeth Cymru. Casgliad y gwariant hyd at 31 Mawrth 2017 oedd: • "Yn erbyn y gyllideb graddol, fel y darparwyd i CCAUC hyd at 31 Mawrth 2017, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi gwario adnoddau yn unol â'r disgwyliadau heb unrhyw amrywiadau perthnasol. • Cronfeydd wrth gefn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar 31 Mawrth 2017 oedd £3.24m a £3.06m ar 1 Awst 2016. Derbyniodd y Coleg £220k o ffynonellau incwm eraill yn ystod y	Monitro gwasanaeth Cymraeg banc Barclays	Yn ystod 2017/18

	flwyddyn ac mae'r mwyafrif wedi'u priodoli i danysgrifiadau sefydliadol. • Nid yw'r cyllidebau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, sy'n sail i'r cais cyllidol ar gyfer y 12 mis o 1 Ebrill 2017, wedi dyblygu meysydd a gyllidwyd gan CCAUC hyd at 31 Mawrth 2017." 10.4 Nodwyd bod y Cyngor Cyllido wedi datgan eu cytundeb gyda chasgliadau'r archwilwyr mewnol. **Rhaglen waith yr archwilwyr mewnol** 10.5 Nodwyd rhaglen waith yr archwilwyr mewnol ar gyfer 2017/18. Yn dilyn trafodaeth ar risgiau a blaenoriaethau'r rhaglen waith ar swyddogion y Coleg derbyniwyd rhannau 1 i 3 y rhaglen waith gan nodi posibilrwydd trosglwyddo rhannau 4 a 5 i raglen 2018/19. 10.6 Nodwyd bod proses adolygu cyllido cytundebau i'r sefydliadau wedi'i gwblhau yn dilyn cyngor gan gyfreithwyr y Coleg. **Ymestyn cytundeb yr archwilwyr allanol** 10.7 Ystyriwyd a chymeradwywyd ymestyn cytundeb yr archwilwyr allanol, PricewaterhouseCoopers, am flwyddyn arall. Cynhelir y proses dendro arferol ymhen blwyddyn. **Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg** 10.8 Nodwyd bod y Coleg yn asesu opsiynau penodi Cadeirydd newydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, gan gadw argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen mewn	Ymestyn cytundeb PwC a chynnal proses dendro archwilwyr allanol Penodi Cadeirydd newydd i PAR	Tan ac erbyn Haf 2018 Erbyn tymor y Hydref 2017

	cof, gydag argymhellion i'w cyflwyno i'r Bwrdd maes o law. 10.9 Nodwyd bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cadeirio'r cyfarfod nesaf.	HE i gadeirio PAR nesaf	7 Tachwedd 2017
11. Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	11.1 Derbyniwyd crynodeb llafar gan Dr Gwennan Schiavone o'r papur Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a oedd wedi ei gylchredeg o flaen llaw. 11.2 Yn deillio o'r drafodaeth a oedd yn cydnabod gwaith y Coleg yn y maes nodwyd pwysigrwydd: • rôl gynyddol y Coleg mewn hybu hyfedredd iaith yn sgil y Dystysgrif Sgiliau Iaith • bod hyfforddiant ieithyddol yn rhan greiddiol o arlwy'r hyfforddiant yn hytrach na rhywbeth ychwanegol i'r myfyrwyr 11.3 Derbyniwyd yr argymhellion canlynol i'w mabwysiadu fel safbwynt y Coleg ac i'w trafod gyda Llywodraeth Cymru: • bod angen pennu faint o athrawon ychwanegol sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fydd eu hangen er mwyn cyrraedd nod cyffredinol Strategaeth Iaith y Llywodraeth, a chadarnhau erbyn pryd y bydd eu hangen; • bod angen cadarnhau faint o'r athrawon ychwanegol hyn fydd yn dod o'r gweithlu addysgu presennol a faint fydd yn dod i'r proffesiwn drwy hyfforddiant cychwynnol athrawon neu lwybrau eraill; • bod angen i'r Llywodraeth ystyried mabwysiadu trefn lle bo angen i bawb sy'n dymuno addysgu		

	yng Nghymru yn y dyfodol gyrraedd lefel o hyfedredd yn y Gymraeg.		
12. Adolygiad Canghennau	12.1 Derbyniwyd crynodeb gan y Prif Weithredwr o'r papur ar adolygiad Canghennau'r Coleg a oedd wedi ei gylchredeg o flaen llaw. 12.2 Yn deillio o'r drafodaeth nodwyd: • pwysigrwydd diffinio rôl ac egwyddorion y Canghennau er mwyn osgoi gwahaniaethau sefydliadol • diolch i Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru am gynnal holiadur a derbyn adborth y myfyrwyr a'r canfyddiad bod disgwyl i'r Gangen cynnal mwy o ddigwyddiadau academaidd. 12.3 Cymeradwywyd yr argymhellion fel sail ar gyfer eu cynnwys yn llythyron grant y canghennau ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18.		
13. Bwrdd Academaidd	13.1 Cafwyd crynodeb o gyfarfod y Bwrdd Academaidd a a gyfarfu ar 10 Mai 2017 gan y Deon, Dr Hefin Jones. 13.2 Yn sgil mabwysiadu'r Cynllun Academaidd newydd cytunwyd i adolygu'r cynlluniau pynciol canlynol: • Busnes a Rheolaeth • Celf • Y Gyfraith • Daearyddiaeth a'r Amgylchedd • Diwydiannau Creadigol • Gwyddorau Chwaraeon		

	13.3 Adroddwyd bod aelodau'r Bwrdd Academaidd wedi cytuno ar y model fel un addas ar gyfer hybu ysgolheictod cyfrwng Cymraeg a sicrhau niferoedd digonol o academyddion y dyfodol. Gan ddatgan diddordeb ar ran Prifysgol Aberystwyth, nodwyd gan y Dr Rhodri Llwyd Morgan bod tuedd i'r ceisiadau ddod o faes y gwyddorau ers cyflwyno'r model cyllido 50%, ac yn sgil hynny, bod pryder ynghylch nifer y ceisiadau yn y dyniaethau. 13.4 Nodwyd pwysigrwydd buddsoddi tymor canolig ym maes ehangu mynediad er mwyn hybu cyfleoedd a dilyniant. 13.5 Nodwyd bod y Prif Weithredwr a'r Deon wedi derbyn gwahoddiad gan y QAA i fod yn aelodau o banel i adolygu'r canllawiau ar gyfer asesu gwaith a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. 13.6 Nodwyd bod y Deon wedi gorffen ei daith flynyddol yn ymweld â'r sefydliadau. Ar ei ymweliad â Phrifysgol Glyndŵr a Choleg Cambria gwelodd enghraifft o arfer da mewn gweithdy ar gyfer darpar fyfyrwyr Safon Uwch. Yn y gweithdy dysgwyd am rinweddau medru'r iaith Gymraeg er mwyn ehangu cyflogadwyedd. 13.7 Nodwyd mai rhan o waith y Deon yn y flwyddyn academaidd nesaf fydd archwilio sut mae pob Cangen yn gweithio law yn llaw â'r cytundebau newydd. 13.8 Diolchwyd i'r Deon am ei waith		

Cyrhaeddodd yr Athro Hywel Thomas yn ystod eitem 13. Fe'i croesawyd i'r cyfarfod ac adroddwyd ei fod wedi ei ail-benodi fel Cyfarwyddwr am dymor pellach.			
14. Cyd-destun cyllido Addysg Uwch yng Nghymru a goblygiadau i'r Coleg	14.1 Cafwyd trafodaeth ar gyd-destun cyllido'r sector addysg uwch yng Nghymru a goblygiadau hynny i'r Coleg. 14.2 Yn ystod y drafodaeth nododd nifer o aelodau'r Bwrdd eu pryderon am y sefyllfa gyllidol yn y sector addysg uwch ar hyn o bryd. Ymhlith y pwyntiau a nodwyd yr oedd y canlynol: • Bod y prifysgolion yn gweld toriadau mawr i'w cyllidebau • Ym marn rhai aelodau'r Bwrdd, ei bod yn debygol y byddai prifysgolion yn dibynnu i raddau mwy ar y Coleg i'w cefnogi i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg • Effaith ail-strwythuro mewnol mewn rhai prifysgolion • Newidiadau polisi ac amserlen datblygiadau yn dilyn adolygiadau Diamond a Hazelkorn 14.3 Mewn ymateb i bryderon rhai o aelodau'r Bwrdd nododd y Prif Weithredwr bod y Coleg yn ymwybodol bod hinsawdd cyllido ansicr oddi fewn i'r sector addysg uwch ac y bydd cyfle i drafod y materion dan sylw yn y cyfarfodydd cynllunio er mwyn i'r Coleg geisio lliniaru'r effaith. Byddai'r Coleg yn cynnal trafodaethau hefyd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Grŵp fu'n adolygu gweithgareddau'r Coleg.		

	14.4 Cytunwyd i drafod yr eitem eto yn y dyfodol.		
15. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	15.1 Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf: • 19 Medi 2017, rhwydwaith fideo 15.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith ac i staff y Brifysgol Agored am eu cymorth am drefnu a lletya'r cyfarfod. 15.3 Nodwyd mai dyma oedd cyfarfod olaf Fflur Elin. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad a dymunwyd yn dda iddi yn y dyfodol.		